DRAFFT – Cyfarfod Cyllid ar gyfer Praeseptu 2025/2026 Cyngor Cymuned Llanbedr 9.1.25

Yn anffodus cyfarfod dros zoom oherwydd tywydd rhewllyd

Yn Bresennol

Cadeirydd Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Annwen Hughes, Nia Jones, Luise Vassey, Helen Johns, Kevin Titley, Cyngh Gwynfor Owen

Ymddiheuriadau

Robin Ward, John Evans.

Datgan Buddiant – Cyngh Annwen Hughes – materion Cynllunio.

Cofnodion Cyfarfod diwethaf – eu derbyn a chadarnhau eu bod yn gywir.

Rhai Materion yn Codi ac angen eu trafod cyn mynd ymlaen gyda'r gyllideb.

Sef

1. Diwrnod I glirio y fynwent – pasiwyd I ohirio hwn ac ail drefnu oherwydd y tywydd.
2. Bod angen tacluso ffordd y fynwent – cysylltu efo Tim Tacluso Cyngor Gwynedd (David Charles Williams ).
3. Galwad ffon gan Rheolwr Siop Yr Hen Fecws – angen cymorth parthed cysylltu efo rhywun fydda yn gallu eu rhoi ar ben ffordd gyda gosod toiled yn y Shop. Cyfeirio nhw at Pensaer Gruffydd Price a hefyd Asiantaeth yr Amgylchedd.
4. Cynhebrwng y diweddar Mrs Crabtree yr wythnos nesaf yn yr hen fynwent (bed teulu)
5. E bost parthed newid yn y system Post Office – Talsarnau – yn ol I gael fan symudol. Holwyd beth am Llanbedr. I'r Clerc gysylltu parthed hyn.
6. Cas defibiwlator. Y Clerc wedi derbyn neges gan John Evans, bod bwriad I osod hwn dydd gwener 10.1.25 ar wal y Victoria, a'I gysylltu gyda'r cyflenwad trydan. Bydd rhaid wedyn ei gofrestru. Angen cael llun o hyn er mwyn dangos cyfraniad hael Cwmni Breedon, ac wrth gwrs I'r Cynghorydd John Evans am drefnu hyn. Arbed dros £500 I'r Cyngor Cymuned.
7. Capel y Ddol – ac anhawsterau I drigolion ymweld a beddrod eu teuluoedd dros gyfnod y Nadolig. Y Clerc wedi ffonio adran cynllunio ac wedi gadael neges ar beiriant ateb. Hyd yma heb gael unrhyw ymateb ganddynt. Pryder bydd y scaffoldiau yno am amser hir. Beth yw'r oedi?
   **Adroddiad gan Cyng. Gwynfor Owen**.
   Bod yna bwyllgor Cyllid – gweithdy yfory 10.1.25 gan Cyngor Gwynedd, yn rhy hwyr I'r Cynghorau gan bydd presept wedi ei wneud yn barod ganddynt. Ond bydd yn gyfle I'r Cynghorwyr ddeud ei dweud. Yn barod yn gwybod mae Cyngor Gwynedd eto yw'r Cyngor fydd yn hawlio y lleiaf o grant gan Llywodraeth. Hyn yn bennaf oherwydd oedran cynnyddol ei phoblogaeth. Llai o bobl ifanc yma yn Ngwynedd.
   Arweinydd Newydd yn lle Dyfrig Siencyn sef Nia Jeffreys. Bellach mae hi wedi enwi ei Chabinet. Bydd Craig ap Iago yn disodli Dafydd Meurig fel Arweinydd yr Amgylchedd. Mawr hyderus y bydd cystal cyd weithio ag o ar gynlluniau y ffordd liniaru Llanbedr.
   Problemau graeanu – yr un broblem mewn aml I le. Toriadau.!!
   Mae angen cadarnhad neu o leiaf ddealltwriaeth I'r polici graeanu gan Gyngor Gwynedd

Hefyd wedi derbyn map o'r prif ffyrdd ble maent yn graeanu. Hwn I fynd ar y dudalen face book. (gan KT)

Nododd KT bod nhw yn nodi ar y wefan y byddent yn ceisio cyrraedd ardaloedd eraill os bydd adnoddau ar gael.

**Adroddiad Cyngh. Annwen Hughes**

1. Dim biniau halen ar ffordd Cwm Bychan. Gellid gosod un ger Garth Engian/Pen Bont a hefyd yn uwch I fyny'r Cwm, tuag at Cwm Mawr / at ffermdy Cwm Bychan.
2. Dail angen eu sgubo ar hyd ochr y ffyrdd. Perchnogion Capel y Ddol wedi gwneud Gwaith da ger y fynedfa.
3. Cyflwr ffordd Cwm Bychan yn sobr gyda'r holl dyllau. Mae hi wedi hysbysu'r Cyngor Gwynedd. Pasiwyd bod y Clerc yn ategu yr un gwyn.

Bod Trefor Hughes wedi clirio drain ochr y ffordd ger Crafnant.

Prinder arian gan Gyngor Gwynedd. Arian I Gaerdydd y n lle!!

Materion Eraill gan Gynghorwyr

Eirwyn Thomas – a ddylid gofyn am arwyddion yn nodi ble maent wedi graeanu. Er enghraifft wedi graeanu hyd at adwy Morfa Mawr, ond dim byd wedyn. Yn anghyson ac felly yn berygl.

Helen Johns – nodi bod angen cysylltu gyda tir feddiannwyr ger Coed Artro. Brigau Coed y n gwyro I'r brif ffordd. Modurwyr yn cwyno eu bod yn methu gweld llif y traffic. Pobl hefyd yn cerdded yng nghanol y ffordd er mwyn osgoi y brigau. Clerc gysylltu efo'r tir feddiannwyr.

Nodi hefyd y Gwaith da sydd wedi ei wneud ar yr tocio eiddew ger Glennydd.
(Gwirfoddoli gan JTW a Benjamin Yull

J.T.W – yn nodi bod y maes parcio llwybr Hafod y Bryn ger Bryn Hyfryd yn fwdlud, a dwr yn codi ynddo. Cysylltu efo'r Parc Cenedlaethol.

Nododd hefyd bod y Pentref yn edrych yn fler iawn. Diffyg parch gan bobl y neu Pentref.
Gobeithio am ddiwrnod I dacluso tua mis Mawrth.
Draeniau hefyd wedi llenwi.
Draen ochr allan I'r Victoria wedi llenwi, a dwr yn crynhoi yma. (Ers diwrnod goleuo Llanbedr).
Maes Parcio y Victoria hefyd yn fler iawn medda hi.
JTW a'r Clerc wedi bod allan yn graeanu, a diolch iddynt.

Cais Cynllunio NP5/62/399C

Parthed rhyddhau amodau ynghlyn a'r ffordd liniaru arfaethedig, Llanbedr
Rhyddhau amod 5 (datganiad dull adeiladu|), rhif 11 (parthed manyldeb archeolegol) a 14 (cynllun tirwedd a phlannu).
Wedi derbyn un e bost gan Robin Ward parthed y cais yma, gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Bu I'r Clerc ddarllen yr e bost.
ER hyn I gyd a'r cryn drafod – pasiwyd bod y Cyngor yn gefnogol I'r cais yma.
Methu agor a r y portal, ond y Clerc wedi medru eu cael dros we transfer a dogfennau papur hefyd, rhain a'r gael I bawb wneud cais I'w gweld.

Tud 3.
Pryder oherwydd methu eu cael ar y portal y bydd gofyn am adolygiad barnwrol ar y mater, fel o'r blaen. Dyna y peth olaf yd ani ei angen, ac amser yn nesau at ddiwedd yr hen gais cynllunio (diwedd Mawrth 2025) KT yn lleisio pryder am hyn.
Lles Ardudwy, diogelwch ffordd ac economi leol, a Gwaith yn yr Aerodrom yn bwysig, medd Gwynfor Owen.
.
Rhai yn datgan pryder efo'r compownd Gwaith yn rhy agos at y tai, swn ac ati, a hefyd ar dir sydd yn tueddu I lifo. (Luise a Robin). Arian ar gyfer y Gwaith hyn? Nododd JTW y .byddai arian yn cael ei ryddhau yn achlysurol ac nid oes rhaid poeni yn ormodol am hyn.
Dywedodd hefyd y bydd cyfarfod dydd llun 13.1.25 parthed Weltag 2
Mae Gerwyn Jones Arweinydd y Prosiect yn drwyadl iawn.
Yr angen efallai am fwy o sicrwydd I'r Pentrefwyr.
Os dymunir gan rai anfon sylwadau preifat ar e u liwt eu hunain, yn rhydd I wneud hynny.
Ond barn y Cyngor **Cymuned yw I gefnogi.**
**Nododd JTW y bydd y Parc yn edrych ar yr amodau yn unol a chanllawiau.**

**Ymlaen at y GYLLIDEB**

Nododd y Clerc bod yna £**23826.26** yn weddill yn y Banc 29.12.25
Wedi Talu allan

| | |
|---|---|
| £20.00 | Canolfan Rhent |
| £48.00 | Coed Nadolig |
| £40.00 | Delyth Williams (we) |
| £85.00 | Cyfieuthu |
| £40.00 | Delyth Williams (we) |
| £480.00 | Elgan Pugh (gwrych fynwent) |
| £5.00 | Banc |

Aethpwyd drwy'r spread sheet gan nodi ychydig o lefydd I godi ar y presept
Pob dim yn codi yn flynyddol

Bydd yr arian a garwyd trosodd diwedd Mawrth eleni 2025 tua £12000 (rhagweld)
Bod £5500 wedi torri twll mawr yn y gyllideb, ac heb neilltuo tuag ato – wal rhwng y Neuadd a'r Ysgol. Yn bwysig ei gwneud rhag diogelwch.
Tynnu £2400 y CCTV camerau tuag at digolledu hyn.

Pasiwyd rhoi hyn eto yn y gyllideb 2025/26 fel rhan cychwynnol ac edrych yn fanylach ar hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf..

Nododd y Clerc yn ol y cyfrifon bydda angen £29000 yn y presept. Cyngh. Eirwyn Thomas a'r Clerc wedi bod yn gweithio ar hyn ers mis Rhagfyr.
Hynny fesul Treth Daladwy Band D pob eiddo yn Llanbedr o £359.87
Yn golygu codi £80.58 yr annedd.

Costau uwch ar lwybrau, torri fynwent, torri cae chwarae, ac unrhyw gostau nas rhagweld I'r dyfodol.
Pasiwyd bod Cyngor Llanbedr yn cyfrannu £2000 at Ysgol Feithrin os yw amodau yn bodloni'r Cyngor.

Tud 4.
Cyfranniad o £1500 tuag at gostau y Neuadd bentref. (Pwyllgor Neuadd Wedi talu £4000 am ail wneud y llawr y Neuadd) Angen castors Newydd I'r piano a hefyd rhoi stoppers ar bob cadair rhag iddynt grafu y llawr.
Pasiwyd hefyd I roi arian yn y gyllideb tuag at Cyfeillion yr Ysgol £1000, hyn yn rhyddhau y pwysau oddi ar y Cyfeillion. Rhoddwyd £500 o gronfa y Rhoddion iddynt eleni.

Ble I gael £5500 tuag at y wal derfyn Ysgol a'r Maes Parcio Neuadd.
Er I'r Clerc geisio cael grant gan Gyngor Gwynedd am hyn – dim byd ar gael.
Felly hefyd am y CCTV camerau.
Diolch arbennig I John a Cwmni Bowden am y cas diffibiwlator. Hyn wedi arbed o gwmpas £700 I'r Cyngor. (Yr hen gas wedi cancro ac yn berygl I rywun frifo gydag o.

Arian nas gwariwyd hyd yma er mwyn gwneud arbedion er mwyn talu am waith y clawdd –

| Fel a ganlyn | Cyllideb | Cost tebygol | Heb ei wario |
|---|---|---|---|
| Archwiliad offer - | £350 | £185 | £165 |
| Cynnal offer | £2500 | £1700 | £800 |
| Llais Ardudwy | £20 | £20 | |
| Torri Fynwent | £1500 | £ | |
| Gwaith Arall | £500 | £480 | £20 |
| Robinsons | 230 | - | £230 |
| CCF | - | £83.25 | |
| War Memorial | £250 | 130 | 120.00 |
| Cynnal | £500 | - | £500 |
| Llwybrau | £1250 | £400 | 850.00 |
| Halen | 356.92 | - | 356.00 |
| Gola Dolig | 500.00 | 288.00 | 212.00 |
| Huchenfeld | 150.00 | - | 150.00 |
| Rhodd | 500.00 | 500.00 | - |
| Neuadd | !500.00 | £1800 | - |
| CCTV | 2400 | - | £2400 |
| Cylch | £1500 | £1500 | - |
| Cyrsiau | £200 | - | £200 |
| Cyfieuthu | £1440 | ? | ? |

Rhagweld arbedion 24/25 yn £6000
Felly yr arian yma at y wal cyn diwedd y flwyddyn.

| Cyllideb 24/25 | | Cyllideb 25/26 |
|---|---|---|
| £27714.01 | gwariant Tebygol | £30855 |
| Praesept | | |
| 21000 | | £29000 |
| Arian yn y banc diwedd 31.3.24 | | Arian yn y banc 31.3.25 |
| £18184.69 | | £12248.33 |

Rhagweld arian yn weddill erbyn Mawrth 2026 yn y Banc o £10392